# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Mai 2022

Amser: 09.00 - 13.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12845

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mark Isherwood AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Peredur Owen Griffiths AS (yn lle Rhys ab Owen AS)<br>Mike Hedges AS |
| Tystion: | Maria Bell, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)<br>Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Dave Street, Association of Directors of Social Services (ADSS) |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton (Archwilydd Cyffredinol Cymru)<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Elizabeth Foster (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod a nododd etholiad Rhys ab Owen AS i'r Pwyllgor ar 10 Mai yn lle Cefin Campbell AS.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhys ab Owen AS a Rhianon Passmore AS. Dirprwyodd Peredur Owen Griffiths AS ar ran Rhys ab Owen AS.

## 2 Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn: Sesiwn dystiolaeth 3

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Maria Bell o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Dave Street o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## 3 Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn: Sesiwn dystiolaeth 4

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

3.2 Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod dros dro ar ôl y cwestiwn cyntaf. Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22. Cafodd Natasha Asghar AS ei henwebu gan Peredur Owen Griffiths AS. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr enwebiad.

## 4 Craffu ar weinyddiaeth gyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol, fel rhan o'i waith craffu ar weinyddiaeth gyhoeddus.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitem o fusnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Craffu ar weinyddiaeth gyhoeddus: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.